

“Rwyf am dy erlyn!”

“Am hynny y dywedir: ‘Deffro, di sydd yn cysgu, a chod oddi wrth y meirw, ac fe dywynna Crist arnat.’ (adn. 14)

Beth am ddarllen Effesiaid 5:1–14 ac yna myfyrio

Er mai yr Eglwys sydd i warchod yr egwyddorion a'r gwerthoedd y mae Duw wedi eu gosod i lawr yn yr Ysgrythur, mae'n siŵr y byddai pob Cristion yn barod i gyfaddef nad ydym yn gwneud gwaith cystal ag y dylem ni o gyflwyno y gwerthoedd hynny i'r byd.

Mae hanes am genhadwr yn India unwaith yn cyfarfod Mahatma Gandhi gan ofyn y cwestiwn hwn iddo: “Beth ddylem ni fel Cristnogion ei wneud i gynorthwyo dynion a gwragedd yn India?” Atebodd Gandhi: “Yr wyf am awgrymu pedwar peth. Yn gyntaf, y dylai pob Cristion a phob cenhadwr ddechrau byw yn debycach i Iesu Grist. Yn ail, y dylech weithredu eich crefydd heb dynnu dim oddi arni. Yn drydydd, y dylech bwysleisio cariad gan ei wneud yn rym yn eich gwaith, oherwydd mae cariad yn ganolog i Gristnogaeth. Yn bedwerydd, y dylech astudio y crefyddau nad ydynt yn Gristnogol gydag agwedd gydymdeimladol er mwyn i chi fedru cydymdeimlo yn well â phobl.” Mae'r hyn yr oedd Gandhi yn ei ddweud yn syml yn golygu hyn: os wyt am fod yn berthnasol, mae'n rhaid i ti fod yn fwy tebyg i dy feistr. Bydd yn Gristion.

Mae yna un pregethwr a wahoddwyd unwaith i siarad â chriw o wŷr busnes cyfoethog yn sôn am y ffordd y bu i filiwnydd ddod ato cyn iddo gychwyn ei bregeth gan hanner awgrymu: “Os na fyddi di yn effeithio tröedigaeth yn fy mywyd heddiw, byddaf yn dy erlyn.” Tybed ai dyna y mae'r byd yn hanner ei ddweud ond yn ei feddwl; “Os nad ydych chi Gristnogion yn gallu effeithio tröedigaeth yn ein bywyd ni, yr ydym am eich erlyn am dorri eich addewid. Yr ydych yn addo llawer ond beth yn union ydych yn ei wneud i sylweddoli eich addewidion?” Mae'n debyg pe buasai holl wawd y byd yn cael ei grisialu mewn un frawddeg mai dyma fyddai'r frawddeg: “Rydych yn addo llawer, beth am ei ddarparu?” Mae'r Eglwys wedi addo llawer i'r byd. Bellach, mae'n amser cyflawni yr addewidion.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 24:30–34; Dat. 3:1–22; Eseaia 60:1–20

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw galwad Iesu ar ei Eglwys?
2. Pa ymateb y disgwyliod oddi wrth Eglwysi Llyfr y Datguddiad?

Gweddi

O Dad, mae dy her di fel cleddyf yn taro fy nghalon ac eto ni allaf ddadlau yn erbyn dy her. Mae angen i ti i'm hadnewyddu yn ysbrydol, angen i ti fy niwgygio i. Cynorthwya fi yn enw Iesu. Amen.